

## Cyfyngiadau ar bwy sy'n cael Cymryd Rhan yn Nhrافodion Cyfarfodydd a Phwyllgorau'r Corff Llywodraethu

1. Nod yr egwyddorion cyffredinol sy'n ymwneud â chyfyngiadau ar bwy sy'n cael cymryd rhan yn nhrافodion corff llywodraethu yw gwarchod gwrthrychedd corff llywodraethu a'i aelodau, a sicrhau nad oes perygl i neb herio ei weithdrefnau neu ei benderfyniadau ar sail bod yn ddiuedd.

2. Dyma'r egwyddorion cyffredinol:

- os oes unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau unrhyw berson a buddiannau corff llywodraethu, yna dylai'r sawl dan sylw ddatgelu ei fuddiannau, gadael y cyfarfod a pheidio â phleidleisio;
- mewn sefyllfa lle mae egwyddorion cyfiawnder naturiol yn gofyn am wrandawriad teg, ac os oes unrhyw amheuaeth o gwbl ynghylch gallu'r unigolyn i fod yn ddiuedd, dylai ef neu hi ddatgelu ei fuddiannau, gadael y cyfarfod a pheidio â phleidleisio;
- os oes gan lywodraethwr neu aelod nad yw'n llywodraethwr fuddiant ariannol mewn unrhyw fater, dylai ef neu hi ddatgelu hynny, gadael y cyfarfod a pheidio â phleidleisio;
- mae enghreifftiau o achosion lle mae'n rhaid rhoi gwrandawriad teg yn cynnwys penderfyniadau sy'n ymwneud â disgyblu staff neu ddisgybl, neu faterion derbyn disgyblion. Nid yw'r cyfyngiadau hyn yn rhwystro corff llywodraethu neu bwyllgor rhag caniatáu rhywun sy'n gallu cynnig tystiolaeth berthnasol, rhag gwneud hynny.

3. Mae darpariaethau mwy penodol ar y cyfyngiadau o ran cymryd rhan wedi'u nodi yn [Rhan 10 ac Atodlen 7](#) i Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

4. Nid oes rhaid i glerc y corff llywodraethu adael cyfarfod o dan y rheoliadau hyn oni bai fod y cyfarfod yn trafod ei benodiad, ei dâl neu achos disgyblu yn ei erbyn. Os yw'r llywodraethwr yn gweithredu fel clerc y cyfarfod, fodd bynnag, a bod y rheoliadau yn berthnasol iddo, ni chaiff gymryd rhan mewn unrhyw fodd ond fel clerc.

5. Os oes unrhyw anghydfod ynghylch a ddylai rhywun adael y cyfarfod, yna rhaid i'r llywodraethwyr eraill sy'n bresennol gytuno ar hyn.

6. Mae buddiant ariannol mewn contract, contract arfaethedig neu unrhyw fater arall yn cynnwys achosion:

- pan fo rhywun wedi ei enwebu i swydd gan y sawl y gwnaed y contract ag ef neu y bwriedir gwneud y contract ag ef;
- pan fo'r llywodraethwr, neu aelod o'r pwyllgor, yn wŵr/gwraig neu'n bartner i'r sawl y gwnaed y contract ag ef neu y bwriedir gwneud y contract ag ef;

- pan fo perthynas neu rywun sy'n llywodraethwr neu'n aelod o'r pwyllgor yn byw gyda'r sawl sydd â buddiant mewn contract neu contract arfaethedig gyda'r corff llywodraethu.

7. Nid yw hyn yn berthnasol o safbwynt buddiant ariannol rhywun perthnasol:

- lle nad yw'r buddiant yn fwy na buddiant y mwyafrif o'r rhai sy'n gweithio yn yr ysgol;
- os yw'r buddiant ariannol ond yn sgil y ffaith iddo gael ei enwebu neu ei benodi i gorff cyhoeddus, neu ei fod yn gysylltiedig â chorff cyhoeddus mewn unrhyw fodd; neu
- os yw'r buddiant ariannol ond yn sgil y ffaith ei fod yn aelod o gorfforaeth neu gorff arall os nad oes ganddo unrhyw fuddiant ariannol yn y corff hwnnw.

8. Nid yw llywodraethwr â buddiant ariannol wedi'i wahardd rhag:

- ystyried a phleidleisio ar gynigion i gymryd yswiriant atebolrwydd neu gael a thalu am yswiriant o'r fath; ac

• ystyried a phleidleisio ar unrhyw gynnig am gynllun lwfansau llywodraethwyr (yn unol â Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005) yn gyffredinol. Er hynny, rhaid i lywodraethwr adael y cyfarfod a pheidio â phleidleisio os yn trafod talu lwfans neu daliad penodol iddo ef/hi fel unigolyn.

9. Dylai llywodraethwr neu'r clerc adael cyfarfod os ystyrir bod ei fuddiannau mewn mater i'w drafod yn gwrthdaro â buddiannau'r corff llywodraethu. Byddai achosion o'r fath yn cynnwys:

- ei benodiad, ei ailbenodiad, ei atal neu ei ddiswyddiad fel aelod o'r corff llywodraethu neu bwyllgor;
- ei benodiad neu ei ailbenodiad, ei atal neu ei ddiswyddiad fel clerc, cadeirydd neu is-gadeirydd y corff llywodraethu neu fel clerc neu gadeirydd pwyllgor;
- os yw'n noddwr-lywodraethwr, ac mai'r pwnc trafod yw unrhyw ddarpariaeth yn yr offeryn llywodraethu o ran enwebu noddwr-lywodraethwyr;
- os yw'r llywodraethwr wedi'i gyflogi i weithio yn yr ysgol, ac mai'r pwnc trafod yw cyflog neu werthuso unrhyw aelod arall o'r staff;
- os yw'r pennaeth yn bresennol, ac mai'r pwnc trafod yw cyflog neu berfformiad y pennaeth;
- os yw'r unigolyn wedi'i gyflogi i weithio yn yr ysgol, ac mai'r pwnc trafod yw penodi olynnydd iddo/iddi.

10. Ni ddylai'r ffaith fod rhywun yn llywodraethwr neu'n aelod o bwyllgor corff llywodraethu mewn mwy nag un ysgol, gael ei ystyried yn achos o wrthdaro buddiannau.